



**Cofnodion y CBC wedi'u cadarnhau
Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau (QSO)
31 Mawrth 2025 am 13:30 o'r gloch
Wyneb yn wyneb yn Charnwood ac ar Microsoft Teams**

Aelodau:

Mandy Rayani (Cadeirydd)	(MR)	Is-gadeirydd Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau (QSO) ac Aelod Lleyg, CBC GIG Cymru
Paul Worthington	(PW)	Aelod Lleyg, CBC GIG Cymru (Ar Teams)
Phil Kloer	(PK)	Prif Weithredwr, BIP Hywel Dda ac Aelod o QSO (Ar Teams)

Yn Bresennol:

Carole Bell	(CB)	Cyfarwyddwr Nyrsio ac Ansawdd, CBC GIG Cymru
Adrian Clarke	(AC)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Iechyd Meddwl a Grwpiau Bregus, CBC GIG Cymru
Vicki Dawson-John	(VDJ)	Arweinydd Ansawdd, CBC GIG Cymru
Iolo Doull	(ID)	Cyfarwyddwr Meddygol, CBC GIG Cymru (Ar Teams)
Helen Fardy	(HF)	Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt, CBC GIG Cymru
Kirsty John	(KJ)	Arweinydd Ansawdd, CBC GIG Cymru
Anita-Louise Hall	(AH)	Rheolwr Gwasanaeth yn Uned Amenedigol Tonna (hyd at ddiwedd eitem 2.1)
Jessica Hill	(Jess)	Claf (hyd at ddiwedd eitem 2.1)
Ian Morris	(IM)	Cyfarwyddwr Clinigol Moddion Newyddenedigol, BIPCAF (hyd at ddiwedd eitem 2.2)
Karenza Moulton	(KM)	Pennaeth Nyrsio Ysbyty Plant Cymru, BIPCAF (hyd at ddiwedd eitem 2.2)
Gavin Owen	(GO)	Dirprwy Gyfarwyddwr Comisiynu Dros Dro ar gyfer Ambiwlans a GIG 111, CBC GIG Cymru
Rhodri Pyart	(RP)	Arweinydd Ansawdd Rhwydwaith Arennau Cymru (Arenegwr Ymgynghorol PIPCAF) (Ar Teams)
Adele Roberts	(AR)	Pennaeth Ansawdd a Gofal Cleifion, CBC GIG Cymru
Melanie Wilkey	(MW)	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Arbenigol, CBC GIG Cymru
Helen Tyler	(HT)	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol, CBC GIG Cymru

Ymddiheuriadau:

Susan Elsmore	(SE)	Cadeirydd QSO ac Aelod Lleyg, CBC GIG Cymru
Jacqui Maunder	(JM)	Ysgrifennydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Cyswllt Gwasanaethau Corfforaethol, CBC GIG Cymru
Shane Mills	(SM)	Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl a Grwpiau Bregus, CBC GIG Cymru
Angela Mutlow	(AM)	Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol, Llais
Shameen Nawaz	(SN)	Aelod Lleyg, CBC GIG Cymru



Cofnodion:

Helen Tyler

(HT) Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol, CBC GIG
Cymru

Dechreuodd y cyfarfod am 13:30 o'r gloch.

Cyfeirnod yr Eitem	Eitem ar yr Agenda
QS025/019	1.1 Croeso a Chyflwyniadau Cynhaliwyd y cyfarfod ar Microsoft Teams ac wyneb yn wyneb, a nodwyd bod cworwm wedi'i gyflawni. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cyfarfod gael ei recordio at ddibenion gweinyddol. Cafwyd cyflwyniadau.
QS025/020	1.2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb Nodwyd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.
QS025/021	1.3 Datganiad o Fuddiannau Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau eraill o fuddiannau.
QS025/022	1.4 Cofnodion y Cyfarfod Etifeddiaeth a gynhaliwyd ar 03 Chwefror 2025 a Materion sy'n Codi Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2025 wedi cael eu hadolygu a'u cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir o'r trafodaethau. Er nad oedd Susan Elsmore (SE), y Cadeirydd, yn bresennol yn y cyfarfod, roedd SE wedi gwirio cywirdeb y cofnodion cyn y cyfarfod. Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion i'w trafod.
QS025/023	1.5 Cofnod Gweithredu Derbyniwyd y cofnod gweithredu, a chytunodd yr aelodau i gau'r camau gweithredu a gwblhawyd a nodi'r cynnydd yn erbyn y camau gweithredu agored. Roedd yr unig gam gweithredu agored oedd yn weddill yn ymwneud â'r Cylchlythyr Ansawdd a gwaith pellach yn cael ei wneud i gyd-fynd â strategaeth gyfathrebu'r CBC. Roedd hyn yn agos at gael ei gwblhau a bydd yn cael ei gyfeirio ato fel Bwletin Ansawdd. Dywedodd Carole Bell (CB) ei fod ar y trywydd iawn i gael ei ddsbarthu cyn y cyfarfod QSO nesaf.
QS025/024	1.7 Blaengynllun Busnes 2025-2026 Cyflwynwyd y blaengynllun busnes ar gyfer y deuddeg mis nesaf, cadarnhaodd Helen Tyler (HT) ei fod yn waith ar y gweill ac y byddai'n cael ei ddefnyddio i gefnogi cynllunio'r Agenda ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. Gwahoddwyd aelodau i gyflwyno unrhyw eitemau ychwanegol i'r tîm Llywodraethu Corfforaethol. Cytunodd yr Aelodau i: <ul style="list-style-type: none">• Nodi'r blaengynllun busnes.



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem ar yr Agenda
QS025/025	<p>2.1 Stori Claf</p> <p>Cyflwynodd Adrian Clarke (AC) Jessica Hill (Jess) cyn-glaf yn Uned Mamau a Babanod Tonna. Rhannodd Jess ei phrofiad personol o fod yn glaf yn yr Uned ac esboniodd iddi gael ei derbyn oherwydd iselder ôl-enedigol difrifol. Roedd Jess yn glaf am chwe mis a thynnodd sylw at yr heriau a wynebodd fel mam ag anabledau iechyd corfforol.</p> <p>Cytunodd Anita-Louise Hall (AH) y rheolwr gwasanaeth fod Jess yn wynebu heriau unigryw fel y fam gyntaf ag anabledd corfforol i gael triniaeth yn yr Uned. Canmolodd AH Jess am weithio gyda staff i fynd i'r afael â rhwystrau sy'n gysylltiedig ag amgylchedd ffisegol y ward fel ystafelloedd bach a materion hygrychedd. Tynnodd AH sylw at y dysgu o brofiad Jess, gan gynnwys yr angen am offer addasol a mewnbwn ffisiotherapi arbenigol. Gwnaeth y gwasanaeth newidiadau i wella'r amgylchedd ffisegol a mynediad at offer a chanmolodd AH barodrydd staff i wrando ac addasu a oedd yn hollbwysig wrth wneud gwelliannau.</p> <p>Esboniodd AH hefyd fod y gwasanaeth yn archwilio dulliau i leihau gorbryder i gleifion gael eu derbyn i'r Uned megis darparu llyfrynnau gyda lluniau o'r uned a galwadau ffôn i gyflwyno staff i drafod y broses dderbyn. Ar gyfer derbyniadau a gynlluniwyd mae'r uned yn annog ymweliadau â'r tîm cymunedol amenedigol, oherwydd gall hyn helpu i leihau gorbryder a rhoi ymdeimlad cyfarwydd. Mewn sefyllfaoedd brys, mae'r uned yn cynnig llyfryn gyda gwybodaeth am beth i ddod gyda chi a beth i'w ddisgwyl wrth gyrraedd. Mae hyn yn helpu cleifion i baratoi ar gyfer eu harhosiad ac yn lleihau gorbryder. Yn ogystal, roedd cynlluniau i weithredu taith fideo ond oherwydd adnoddau nid ydynt wedi gallu cwblhau hyn.</p> <p>Tynnodd Jess sylw at heriau ariannol a logistaidd hefyd. Lleihaodd ei phartner ei oriau gwaith i ofalu am eu plentyn hŷn ac achosodd hyn anawsterau ariannol i'r teulu. Disgrifiodd Jess hefyd deithiau trên hir a oedd yn anodd i'w merch ifanc.</p> <p>Esboniodd Carole Bell (CB) fod y Gweinidog wedi sicrhau bod cyllid ar gael i helpu gofawyr gyda chostau teithio. Nod yr arian cylchol yw lleddfu rhai o'r beichiau ariannol y mae teuluoedd yn eu hwynebu. Diolchodd y Cadeirydd i Jess am rannu ei stori bersonol a dymunodd yn dda iddi ar gyfer y dyfodol.</p> <p>Gwnaeth yr aelodau sylwadau ar bwysigrwydd datblygu taith fideo ar gyfer yr Uned a gwnaethant gytuno i dynnu sylw at hyn yn adroddiad y Cadeirydd a rhoi'r adborth hwn i'r Bwrdd Iechyd sy'n darparu'r gwasanaeth hwn.</p>



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem ar yr Agenda
	<p>Penderfynodd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Nodi'r cyflwyniad a stori'r claf.
QS025/026	<p>2.2 Diweddariad ar Uwchgyfeirio Ysbyty Plant Cymru</p> <p>Cyflwynodd Carole Bell y Cyfarwyddwr Clinigol Moddion Newyddenedigol Ian Morris (IM), yn BIPCAF a Karenza Moulton (KM), Pennaeth Nyrsio Ysbyty Plant Cymru yn BIPCAF. Rhannodd IM a KM gyflwyniad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am statws uwchgyfeirio'r Uned Gofal Critigol Paediatric (PCCU) a'r Uned Gofal Dwys i'r Newydd-anedig (NICCU) yn Ysbyty Plant Cymru.</p> <p>Tynnodd IM sylw at welliannau yn y strwythur llywodraethu gan gynnwys apwyntiadau allweddol a chyfarfodydd rheolaidd i sicrhau goruchwyliaeth ac atebolrwydd cliriach. Trafododd IM y lefelau gweithgarwch uchel a chyflwyniad dangosfwrdd i gofnodi gweithgarwch ac argaeledd cotiau yn gywir. Amlygwyd gwelliannau staffio hefyd ac mae rolau recriwtio, ailstrwythuro ac ansawdd i gyd wedi arwain at lefelau staffio gwell. Cyflwynodd IM ddata ar farwolaethau newyddenedigol a meincnodi cenedlaethol ac amlygodd welliannau mewn meysydd allweddol fel retinopathi, sgriniad cynamseroldeb a chyfraddau heintiad. Pasiodd IM i KM a thrafododd KM y metrigau allweddol ar gyfer PCCU gan gynnwys gwrthodiadau, lefelau gweithgaredd a gwelliannau staffio. Rhannodd CM adborth cadarnhaol gan gleifion a theuluoedd gan dynnu sylw at y gwelliannau mewn gofal a phwysigrwydd gwaith parhaus i gynnal y gwelliannau hyn.</p> <p>Gofynnodd CB a allai IM a KM fyfyrion ar y broses uwchgyfeirio ac roeddent ill dau yn cydnabod yr heriau ond hefyd y manteision o ran canolbwyntio meddyliau ac ysgogi gwelliannau. Dywedodd IM fod cael disgwyliadau a gofynion clir ar gyfer llacio wedi gwella eu dealltwriaeth o'r gofynion ac ar ôl i hyn gael ei sefydlu roeddent yn gallu rhoi'r wybodaeth a'r sicrwydd angenrheidiol.</p> <p>Cadarnhaodd CB fod cydweithwyr BIPCAF wedi cydsynio i ddsbarthu'r cyflwyniad.</p> <p>CAM GWEITHREDU: Dosbarthu'r cyflwyniad.</p> <p>Penderfynodd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Nodi'r cyflwyniad a stori'r claf.
QS025/027	<p>3.1 Cofrestr Risg y Cyd-bwyllgor Comisiynu – Risgiau a Neilltuir i'r Is-Bwyllgor QSO</p>



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem ar yr Agenda
	<p>Derbyniodd yr Aelodau'r gofrestr risg fel yr oedd ar 31 Ionawr 2025 ac amlygodd HT y risgiau sy'n ymwneud â'r Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau (QSO) wedi'u neilltuo i'r is-bwyllgor hwn at ddibenion monitro a chraffu.</p> <p>Pasiodd HT i'r aelodau a gofynnodd a oedd unrhyw ymholiadau penodol mewn perthynas ag unrhyw un o'r risgiau a neilltuwyd i'r is-bwyllgor QSO.</p> <p>O ran Gwasanaethau Dyfeisiau Cardiaidd, holodd y Cadeirydd a oedd y risg hon yn benodol i Ogledd Cymru neu a oedd yn cynrychioli mater ehangach ynghylch ymgysylltiad o fewn y gwasanaeth. Eglurodd Mel Wilkey (MW) fod y gwasanaeth yn ddiogel, a bod y problemau ymgysylltu yn ymwneud â'r darparwr. Dywedodd MW hefyd fod y risg yn debygol o gael ei datrys erbyn y cyfarfod nesaf.</p> <p>Roedd gwelyau Gofal Dwys Paediatrig a Rheoli Heintiad Newyddenedigol wedi'u trafod yn y cyflwyniad cynharach ac er bod y rhain yn parhau ar y Gofrestr Risg fel risgiau sy'n sgorio 20, dylai'r rhain hefyd gael eu diweddarau erbyn y cyfarfod nesaf. Er gwaethaf gwelliannau cyffredinol, tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith, er gwaethaf cynllun gwella clir ar gyfer y risg rheoli heintiad newyddenedigol, fod rhai problemau sylfaenol yn ymddangos a allai fod yn gysylltiedig â'r amgylchedd. Roedd yn ymddangos bod y cyfraddau heintiadau yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol er gwaethaf cydymffurfiaeth dda â mesurau rheoli heintiadau.</p> <p>CAM GWEITHREDU: Cytunodd CB ac awgrymodd y gallai'r tîm Ansawdd gynnal ymweliad.</p> <p>Gofynnodd y Cadeirydd hefyd am gynaliadwyedd niwrolawdriniaeth a nododd fod y risg hon wedi'i llacio o 16 i 8 ond cwestiynodd a oedd hyn yn gynamserol gan fod y cyllid wedi'i ddyrannu ond roedd cynaliadwyedd cyffredinol y gwasanaeth yn dibynnu ar recriwtio llwyddiannus.</p> <p>Esboniodd MW fod y Tîm Comisiynu wedi llacio'r risg gan eu bod yn teimlo bod darparu'r buddsoddiad wedi lliniaru'r risg o safbwynt comisiynydd. Ystyriwyd recriwtio fel problem y darparwr. Roedd MW yn ymwybodol bod recriwtio wedi bod yn llwyddiannus, a bod amryw o swyddi wedi eu llenwi.</p> <p>Gofynnodd PK am eglurhad ynghylch y rhesymau sylfaenol a gofynnodd a fyddai'r mater gyda'r darparwr yn effeithio yn yr un modd ar y CBC. Awgrymodd MW y gellid mynd i'r afael â'r pwnc hwn mewn sesiwn</p>



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem ar yr Agenda
	<p>strategaeth CBC gan fod angen i'r CBC gwblhau eu trafodaethau ynghylch derbynoldeb risg o hyd. Nododd MW fod angen trafodaeth bellach ar y gwahaniaethu rhwng risg darparwr a chomisiynydd. Awgrymodd MW y gallai'r Comisiynydd ystyried problemau recriwtio parhaus yn risg, yn enwedig os yw cynllun gweithredu yn methu dro ar ôl tro, a allai effeithio ar ganlyniadau ac ansawdd cleifion, gan arwain at uwchgyfeirio. Cytunodd PK y byddai'n ddefnyddiol trafod hyn mewn sesiwn strategaeth yn y dyfodol a chydabu bod rhai materion yn gymhleth ac yn dibynnu ar wahanol ffactorau.</p> <p>CAM GWEITHREDU: Sicrhau bod Risg ar Agenda strategaeth gweithdy yn y dyfodol a chynnwys hyn fel pwynt trafod penodol.</p> <p>Holodd PK ynghylch risg 53 gan fod y disgrifiad o'r risg yr oedd y strategaeth adsefydlu yn mynd i'r afael â hi i'w ystyried gan y CBC yn nhrydydd Chwarter 2024/2025 ond fod hyn bellach wedi pasio. Cytunodd MW i adolygu hyn y tu allan i'r cyfarfod a rhoi diweddariad yn y cyfarfod nesaf.</p> <p>CAM GWEITHREDU: Bydd MW yn gofyn am ddiweddariad mewn perthynas â Risg 53 ac adborth yn y cyfarfod nesaf.</p> <p>Penderfynodd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Nodi'r adroddiad,• Ystyried a chraffu ar y risgiau a neilltuwyd ar ran y CBC; a• Rhoi sicrwydd i'r CBC ar reoli'r risgiau yn effeithiol.
QS025/028	<p>4.1 Adroddiad gan Rwydwaith Arennau Cymru</p> <p>Derbyniodd yr Aelodau adroddiad Rhwydwaith Arennau Cymru (WKN) a oedd yn rhoi crynodeb ar y materion cyfredol o ran Ansawdd a Diogelwch Cleifion o fewn gwasanaethau a gomisiynwyd gan WKN. Cyflwynwyd yr adroddiad gan Rhodri Pyart (RP) Arenegwr Clinigol o BIPCAF. RP yw arweinydd ansawdd WKN.</p> <p>Y prif fater a drafodwyd ac a amlygwyd gan yr aelodau oedd yr heintiad e-coli Oxa 48 a nodwyd ar ward arennau a thrafodwyd yr heriau sy'n gysylltiedig â'r achos hwn. Er bod hyn yn effeithio'n bennaf ar gleifion arennau, gall ddod yn bryder ehangach o ran rheoli heintiadau. Soniodd RP eu bod wedi cyfarfod ag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ddiweddar a disgrifiodd y cyfarfod fel un cadarnhaol. Fe wnaethant nodi bod yr amgylchedd wedi bod yn ffactor sy'n cyfrannu. Roedd cyfarfod atal a rheoli heintiad yr wythnos nesaf i drafod a chytuno ar ddull cyson ledled Cymru. Esboniodd CB y bydd y mater yn cael ei amlygu yn y fforwm Cyfarwyddwyr Nyrsio nesaf er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth.</p>



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem ar yr Agenda
	<p>Nododd PK fod y WKN yn cyfarfod gyda'r tri darparwr BIPBC, BIPCAF a BIPBA a gofynnodd sut y bydd y CBC ehangach yn cael ei wneud yn ymwybodol ac yn cael gwybod am y mater hwn.</p> <p>Cadarnhaodd CB y byddai hyn yn cael ei amlygu yn adroddiad Cadeiryddion QSO i gyfarfod nesaf CBC a bod yr adroddiad hwn yn dilyn cyfarfod CBC wedi'i ddisbarthu i holl arweinwyr ansawdd y Bwrdd Iechyd a Chadeiryddion Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd. Yn ogystal, bydd Bwrdd Iechyd lleol unrhyw gleifion unigol yr effeithir arnynt hefyd yn cael gwybod. Ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf o achosion yn ymwneud â chleifion BIPCAF. Roedd un claf o Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac roedd Cyfarwyddwr Nyrsio o BIPCAF wedi cyfathrebu â'r DON o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Dywedodd PK fod angen codi hyn yn ehangach fel y gall Byrddau Iechyd ddelio â hyn yn eu hardaloedd eu hunain.</p> <p>Esboniodd RP mai'r tri rhanbarth a grybwyllwyd oedd y tri rhanbarth arenol, sy'n cynnwys De-ddwyrain Cymru, De-orllewin Cymru, a Gogledd Cymru; felly, roedd pob ardal yng Nghymru yn cael eu cynnwys.</p> <p>Gofynnodd Paul Worthington (PW) os yw amrywiaeth darparwyr dialysis yn peri unrhyw heriau o ran gweithredu dull unffurf o ran protocolau a safonau.</p> <p>Nid oedd RP yn teimlo y byddai hyn yn broblem gan fod y gymuned arenol yn gweithio'n agos iawn ac yn rhannu mewnbwn clinigol a bod unrhyw faterion atal a rheoli heintiadau'n cael eu gyrru gan y timau clinigol o fewn y canolfannau arenol. Mae'r her fwyaf yn ymwneud â'r ystadau gan na ellir addasu'r adeiladau'n hawdd.</p> <p>Eglurodd MW fod y WKN a'i drefniadau llywodraethu ychydig yn wahanol i weddill y CBC ac bod adolygiad o'r WKN yn cael ei gynnal ar hyn o bryd.</p> <p>Diolchodd yr Aelodau i RP am y diweddariad</p> <p>Penderfynodd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Nodi'r adroddiad.
QS025/029	<p>4.2 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol</p> <p>Derbyniwyd adroddiad ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau Arbenigol. Adroddodd Melanie Wilkey (MW) ar wasanaethau arbenigol amrywiol, gan amlygu:</p>



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem ar yr Agenda
	<p>Llawdriniaeth Gordewdra - Amlygodd MW yr heriau parhaus o ran ymgysylltu ag Ysbyty Brenhinol Salford ac y byddant yn parhau i uwchgyfeirio hyn. Mae'r llwybr yn parhau i fod ar agor, ac mae'r mater yn ymwneud â'u gallu i fodloni amseroedd aros. Yn y cyfamser, mae capasiti ychwanegol wedi'i sicrhau yn Ne Cymru.</p> <p>Cwestiynodd PK a ddylai'r CBC barhau i fuddsoddi mewn llawdriniaeth gordewdra o ystyried y triniaethau newydd a'r pigiadau colli pwysau. Esboniodd MW mai'r llawdriniaeth hon yw diwedd y llwybr, a byddent yn amharod i leihau capasiti nes bod triniaethau amgen wedi cael effaith ar nifer yr achosion a'r galw am lawdriniaeth colli pwysau. Dywedodd MW hefyd nad oedd gan y CBC ddylanwad dros y meini prawf mynediad ar gyfer y llwybr gordewdra a bod yr elfen lawdriniaeth yn dal i gynrychioli gwerth da am arian i unigolion sy'n bodloni'r meini prawf. Cytunodd MW y gallai fod cyfle i ystyried hyn wrth adolygu'r llwybrau.</p> <p>Gofynnodd PK a oedd cyfle i ddefnyddio rhywfaint o'r cyllid gordewdra i ariannu rhannau eraill o'r llwybr? Esboniodd MW fod y galw am lawdriniaeth yn parhau ar hyn o bryd ac i rai cleifion dyma oedd yr unig opsiwn o hyd. Yn ogystal, mae swm y cyllid a ddyrennir ar hyn o bryd ar gyfer llawdriniaeth gordewdra yn parhau i fod yn gymharol fach.</p> <p>O ran amseroedd aros am lawdriniaeth blastig, roeddent yn dal i ddisgwyl am y data ar gyfer Mawrth 2025, ond bod y targed o 104 wythnos yn debygol o gael ei gyflawni.</p> <p>Cydnabu PW y gwelliant yn amseroedd aros llawdriniaeth blastig a gofynnodd a oedd unrhyw faterion eraill yn agosáu at y marc 104 wythnos y dylai'r CBC fod yn ymwybodol ohonynt.</p> <p>Ymatebodd MW fod digon o gapasiti wedi'i gynllunio i sicrhau bod llawdriniaeth blastig yn parhau i fod o dan y targed 104 wythnos ond gallai fod rhywfaint o bwysau galw tuag at ddiwedd y flwyddyn nesaf. Nid oedd digon o gapasiti i wneud unrhyw gynnydd sylweddol tuag at gyflawni targedau 52 wythnos.</p> <p>Rhoddodd MW sylw i ymholiadau a godwyd cyn y cyfarfod ar Antigen y Bilen Benodol i'r Prostad (PSMA) oherwydd yr heriau cynhyrchu parhaus gyda Chanolfan Delweddu Tomograffeg Allyrru Positronau (PETIC) yn BIPCAF sydd wedi arwain at oedi helaeth mewn cleifion yn derbyn sganiau pan fo amheuaeth o ganser y prostad. Rhoddwyd diweddariad gan y Rhwydwaith Wroleg sydd wedi bod yn edrych i ddod o hyd i ddeunydd fferyllol radio amgen a fyddai'n galluogi sganiau yn BIPCAF i gychwyn eto. Yn y cyfamser, mae sganiau ychwanegol wedi cael eu</p>



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem ar yr Agenda
	<p>sicrhau gan ddarparwr o Loegr a BIPBA i gefnogi gostyngiad yn y rhestr aros. Amlygodd MW eu bod yn aros am y ddyfarniad gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) ac roedd hyn yn debygol o fod yn ymateb cadarnhaol a fydd yn galluogi ailgychwyn cynhyrchu.</p> <p>Rhoddodd ID ddiweddariad clinigol a chynghorodd bod ymgymryd ag ailddilysu clinigol gyda'r holl geisiadau PET PMSA wedi'i gytuno gyda'r bwriad o wneud penderfyniadau ar y cyd, gan nodi nad oedd y sganiau hyn yn orfodol yn ôl canllawiau NICE, felly, mae'r brysbennu a awgrymir yn golygu categoreiddio cleifion yn grwpiau risg uchel, canolradd a risg is.</p> <p>Roedd PK yn falch o glywed y cynnydd cadarnhaol ers i hyn gael ei drafod yng nghyfarfod y CBC yr wythnos flaenorol, a gofynnodd sut y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei chyfleu i Brif Swyddogion Gweithredol y Byrddau Iechyd eraill? Esboniodd ID ei fod wedi ysgrifennu at bob Cyfarwyddwr Meddygol ac wedi copïo Nicola Prygodizicz, Prif Swyddog Gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.</p> <p>Cododd y Cadeirydd gwestiwn mewn perthynas â Gwasanaeth Dyfeisiau Mewnblaniad Clywedol Arbenigol De Cymru a'r diffyg cynnydd parhaus. Cafodd hyn ei gymhlethu gan fater y Cytundeb Hirdymor (LTA) a bydd hyn yn rhan o sgwrs ehangach ond roedd cynllun gweithredu ac roedd y gofynion yn fwy gweladwy.</p> <p>Tynnodd MW sylw hefyd at y broblem ystadau gyda'r Gwasanaeth Osgo a Symudedd yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn parhau ar agor ar hyn o bryd ond os bydd unrhyw ddirywiad pellach, bydd hyn yn effeithio ar fynediad cleifion i'r safle. Mae ceisiadau am fuddsoddiad cyfalaf hyd yn hyn wedi bod yn aflwyddiannus.</p> <p>Gofynnodd y Cadeirydd am lawdriniaeth ar y Galon yn Ysbyty Athrofaol Cymru gan fod y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) hyn wedi ei roi mewn monitro uwch Cadarnhaodd MW fod gweithrediad yn cael ei fonitro gan y Tîm Comisiynu Cardiaidd yn ystod cyfarfodydd Risg a Sicrwydd y Gwasanaethau Cardiaidd bob deufis, gyda'r cyfarfod diweddaraf yn dangos cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu.</p> <p>Penderfynodd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Nodi'r diweddariadau comisiynu arbenigol sy'n cael eu crynhoi yn yr adroddiad hwn, a• Nodi crynodeb o'r risgiau arbenigol a ddisgrifiwyd a'u huwchgyfeirio yn ôl yr angen.



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem ar yr Agenda
QSO25/030	<p>4.3 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Ambiwllans ac 111</p> <p>Derbyniwyd adroddiad ar gyfer Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Ambiwllans ac 111. Cyflwynodd Gavin Owen (GO) yr adroddiad ac amlygwyd y dangosfwrdd ansawdd a diogelwch, sy'n cynnwys adroddiadau lefel uchel ar feysydd ansawdd.</p> <p>Roedd GO yn cydnabod sylwadau'r Cadeirydd ar strwythur y papur ac ymrwymodd i ymgorffori'r awgrymiadau hyn er mwyn gwella strwythur y papur ar gyfer y cyfarfod nesaf. Myfyriodd RW ar y sgwrs a chytunodd bod ambiwlansys wedi cael eu gwerthuso'n draddodiadol ar berfformiad amserol. Fodd bynnag, roedd mwy o ffocws ar reolaeth glinigol ar gyfer gwasanaethau ambiwlans sy'n cynrychioli cyfeiriad newydd o ran darparu gwasanaethau. Cydnabu PW ddefnyddioldeb hyn a chytunodd, fel Cadeirydd yr is-bwyllgor Cynllunio Perfformiad a Chyllid (PPF), ei bod yn bwysig sicrhau bod yr adrodd yn cyd-fynd â phwrpas a chylch gwaith pob is-bwyllgor er mwyn osgoi dyblygu.</p> <p>Rhoddodd GO wybod i'r aelodau am gyhoeddiad Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch sefydlu 'Grŵp Gweithredu Gwella Trosglwyddo Cleifion Ambiwllans Cenedlaethol' newydd dan arweiniad glinigol. Bydd y grŵp hwn yn gyfrifol am ddatblygu a goruchwylio cynllun gweithredu sy'n ymgorffori cyfres o gamau gweithredu yn seiliedig ar arferion llwyddiannus a gwersi a ddysgwyd o fewn Cymru a rhanbarthau eraill o'r DU. Bydd gwaith y grŵp hwn yn allweddol wrth gefnogi'r CBC i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio capasiti ei wasanaethau ambiwlans brys a bydd yn arwain at well cynhyrchiant.</p> <p>Nododd yr Aelodau gyhoeddiad ysgrifennydd y cabinet i'r Senedd ar 11 Mawrth 2025 ynghylch cyflwyno fframwaith perfformiad ambiwlans newydd a derbyniodd argymhellion diweddar grŵp Gorchwyl a Gorffen i gyflwyno categori ymateb porffor newydd sy'n rhannu'r categori coch presennol yn ddau. Bydd y categori porffor yn cael ei ddefnyddio ar gyfer achosion o ataliad y galon ac anadlol. Bydd y categori coch yn cynnwys gweddill y dangosyddion categori coch presennol. Bydd y ffocws ar newid sut rydym yn mesur perfformiad o fewn y categorïau hynny.</p> <p>Nododd yr aelodau fod y gyfradd gadael galwadau 111 wedi cynyddu i 14.5% ym mis Rhagfyr 2024 o 6.4% ym mis Tachwedd 2024. Gostyngodd canran y galwadau 111 a atebwyd o fewn 60 eiliad, o</p>



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem ar yr Agenda
	<p>46.2% ym mis Tachwedd 2024 i 36.3% ym mis Rhagfyr 2024 ac mae'n parhau i fod islaw'r targed o 95%.</p> <p>Rhodddwyd diweddariad ar y JR. Disgwyliwyd y dyfarniad yn fuan.</p> <p>Gwnaeth PK sylwadau ar y swm sylweddol yr arloesedd sy'n cael ei ddatblygu o fewn Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ar hyn o bryd ac roedd ganddo ddiddordeb gweld esblygiad y syniadau hyn dros y flwyddyn nesaf. Un maes penodol a safodd allan oedd y gyfradd uchel o alwadau 111 sy'n cael eu gadael, a oedd yn nodedig o ystyried y drafodaeth am rôl ehangach bosibl y gwasanaeth hwn yn y dyfodol. Nid yw'r gwasanaeth yn edrych fel petai'n gallu ymdopi â'r galw presennol sydd arno. Bydd cynyddu asesiadau clinigol aml-broffesiynol o bell yn caniatáu i'r gwasanaeth fynd i'r afael ag ystod ehangach o faterion. Dywedodd PK fod buddsoddi yn y meysydd hyn yn hanfodol; fodd bynnag, mae'n ymddangos y gallai'r gwasanaeth fod yn dechrau o sefyllfa fregus oni bai bod hyn yn cael ei gamddeall.</p> <p>Esboniodd RW fod y galw yn ystod y cyfnod hwn hyd at fis Rhagfyr 2024 yn arbennig o uchel, ac roedd rhai materion staffio. Yn gyffredinol, nid oedd yr adnoddau staffio ar gyfer y gwasanaeth 111 yn cyd-fynd â'r galw gweithredol ar hyn o bryd, sy'n arwain at restrau staffio sydd ddim yn cyd-fynd a'r galw. Mae prosiect gyda meddyg ymgynghorol allanol i optimeiddio'r rhestrau staffio presennol i gyd-fynd yn well â'r galw wedi'i gychwyn. Fodd bynnag, roedd yn bwysig nodi nad yw'r CBC wedi cynnal adolygiad strategol ffurfiol o alw a capasiti'r system 111. O ganlyniad, roedd y CBC yn gweithio gyda'r fframwaith presennol a sefydlwyd cyn iddo gomisiynu'r gwasanaeth, ac nid yw'r CBC wedi asesu eto a yw'n darparu capasiti trin galwadau a chlinigol digonol ac effeithiol.</p> <p>Gofynnodd y Cadeirydd ynglŷn â thoriadau data'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) gan fod y niferoedd yn ymddangos yn uchel ac y gallai toriadau arwain at gosbau ariannol. Roedd RW wedi ceisio ymchwilio i hyn cyn y cyfarfod ond bydd angen gwneud gwaith ychwanegol er mwyn cael rhywfaint o wybodaeth ychwanegol i'r aelodau ynghylch amgylchiadau'r toriadau.</p> <p>CAM GWEITHREDU: RW i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gyfarfod QSO fis Mehefin 2025 ynghylch y toriadau data.</p> <p>Gofynnodd y Cadeirydd am yr adborth gwael gan gleifion gan fod yr holl sgoriau islaw'r meincnod ac wedi'u categorio fel rhai coch. Gofynnodd y Cadeirydd beth y gellir ei wneud i fynd i'r afael â hyn a sut y gellid defnyddio adborth o'r fath i lywio datblygiad gwasanaethau ymhellach.</p>



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem ar yr Agenda
	<p>Trafododd RW newidiadau technolegol diweddar, gan nodi nad oes angen i bobl aros ar yr alwad mwyach gan y gallant ofyn am alwad yn ôl a chadw eu lle yn y ciw. Dywedodd RW hefyd y gallai gwasanaethau awtomataidd ymdrin â rhai o'r galwadau, a rhoddodd yr enghraifft bod tua 9% o'r galwadau 111 yn ymwneud â phresgripsiynau rheolaidd y tu allan i oriau. Gallai system awtomataidd reoli'r ymholiadau hyn, gan ryddhau capasiti i ddelio â materion eraill.</p> <p>Atgoffodd CB y Pwyllgor fod ymchwiliad manwl y CBC ar Ambiwlans wedi'i drefnu ar gyfer Mehefin 2025. Soniodd CB y gellir mynd i'r afael â sawl mater yn ystod y sesiwn hon ac awgrymodd cynnwys straeon cleifion ambiwlans.</p> <p>Penderfynodd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Nodi cynnwys yr Adroddiad Ansawdd a Diogelwch; a• Trafod a nodi effaith perfformiad a'r heriau sy'n deillio o hynny wrth gomisiynu darpariaeth gwasanaethau ambiwlans brys diogel, effeithiol ac amserol.
QS025/031	<p>4.4 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau Agored i Niwed</p> <p>Derbyniwyd adroddiad ar gyfer Comisiynu ar gyfer Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau Agored i Niwed. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion yr Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau (QSO) yn ymwneud â phortffolio Tîm Comisiynu Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau Bregus (MHLDVG) ar Fawrth 31, 2025.</p> <p>Cyflwynodd Adrian Clarke (AC) yr adroddiad a thynnu sylw at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Adrodd ar Ddigwyddiadau: O fis Ionawr i Chwefror 2025, adroddwyd ar 74 o ddigwyddiadau difrifol yn y Fframwaith Oedolion, gan gynnwys 24 yn y gwasanaethau Diogelwch Canolig a 2 yn y gwasanaethau anhwylderau bwyta. Adroddodd CAMHS am 1 digwyddiad difrifol a 4 digwyddiad diogelu. Roedd y digwyddiadau difrifol yn ymwneud yn bennaf ag ymddygiadau heriol.• Gwasanaethau Diogelwch Uchel: Roedd Ysbyty Ashworth yn cael ei adnewyddu, gyda gwelliannau o ran staffio a chydymffurfiaeth. Mae'r uned wedi lleihau niferoedd yr unigolion sy'n cael eu gwahanu'n hirdymor yn sylweddol drwy raglen rhyngweithiad gadarnhaol (PIP) ac roedd y niferoedd wedi



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem ar yr Agenda
	<p>gostwng o 33 o bobl mewn gwahanu hirdymor i 17 cyn y Nadolig. Roedd Broadmoor a Rampton yn gweithredu strategaethau tebyg. Roedd gan Broadmoor nifer o gleifion â salwch seicotig, ac roeddent yn defnyddio datblygiadau meddyginiaeth a monitro i gefnogi newidiadau cadarnhaol. Nid oedd Ysbyty Rampton bellach o dan fonitro uwch ac mae wedi gwella lefelau staffio ac wedi llwyddo i recriwtio bron i 60 aelod newydd o staff diolch i ailgyflwyno'r taliad ysbytai arbennig. Adroddodd Broadmoor am ymosodiad seibr a effeithiodd ar larymau personol ond dim problemau parhaol, fodd bynnag, roedd y gwasanaeth hwn y tu allan i'r ardal ac nid oedd y CBC yn gallu defnyddio'r gwasanaeth hwn ac amlygwyd y digwyddiadau er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth gyffredinol nid oherwydd unrhyw effaith ar drigolion Cymru.</p> <ul style="list-style-type: none"><li data-bbox="379 837 1490 1742">• Gwasanaethau Diogelwch Canolig: Roedd Clinig Caswell yn wynebu problemau amgylcheddol gan gynnwys diffyg cyfleusterau ynysu, sy'n arwain at welyau gwag. Er bod cyllid ar gael ar gyfer y prosiect hwn, nid oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud ac os na fydd hyn yn cael ei ddatblygu ar unwaith, bydd Llywodraeth Cymru yn ailddyrannu'r cyllid. Mae problemau capasiti yng Nghaswell wedi cael eu gwaethygu gan y tân yng ngwasanaeth Ddiogel Isel Taith Newydd BIPBA yng Nglanrhyd. Mae cleifion wedi cael eu trosglwyddo i Caswell oherwydd bod gwelyau gwag ar y pryd ond mae mwy o gleifion sydd angen lleoliadau diogelwch canolig yn cael eu lleoli yn y sector annibynnol erbyn hyn. Roedd hyn yn effeithio ar gyfraddau gwelyau llawn a oedd yn 67% ym mis Ionawr 2025 a 70% ym mis Chwefror 2025. Mae gan Tŷ Llywellyn broblemau amgylcheddol parhaus a dim ond ugain allan o'r pump ar hugain o welyau a gomisiynwyd oedd yn llawn. Roedd trafodaethau'n digwydd ynghylch symud oddi wrth gontractau bloc ar gyfer Tŷ Llywellyn a Caswell, ond bydd hyn yn cymryd amser. Atgoffwyd yr Aelodau bod BIPBA wedi penodi aseswr annibynnol i gynnal adolygiad annibynnol o'u gwasanaethau iechyd meddwl, a nododd y Cadeirydd ei bod yn bwysig i'r CBC sicrhau eu bod yn cael eu dyfynnu ar waith yr adolygiad hwn i helpu gyda llywio penderfyniadau comisiynu strategol.<li data-bbox="379 1756 1490 1868">• Gwasanaethau Anhwyllderau Bwyta: Mae nifer y cleifion mewnlol wedi codi i 18 ar draws pedwar safle annibynnol, gyda thrafodaethau parhaus i wellar prosesau porthgadw.<li data-bbox="379 1881 1490 1982">• Gwasanaethau Rhywedd: Mae clinig lloeren Plant wedi'i sefydlu yn BIPCAF, gyda chynlluniau ar gyfer gwasanaeth tebyg yng Ngogledd Cymru.



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem ar yr Agenda
	<ul style="list-style-type: none">• Gwasanaethau Amenedigol: Roedd cynlluniau ar gyfer gwasanaethau cleifion mewnol amenedigol newydd ar y gweill, gyda'r nod o gael 2 wely amenedigol newydd wedi'u lleoli yng Nghaer wedi'u comisiynu ar gyfer cleifion Gogledd Cymru, erbyn Hydref 2025.• CAMHS - Roedd y tîm Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu, a Grwpiau Agored i Niwed (MHLDDVG) hefyd yn archwilio asesiadau hyfywedd a chapasiti hirdymor ar gyfer gwasanaethau ledled Cymru gan mai nifer isel iawn o welyau y Gwasanaeth Glasoed Gogledd Cymru (NWAS) a ddefnyddir.• Cuddliwio Croen — roedd disgwyl cyllid gan Lywodraeth Cymru gan fod darparwr wedi'i nodi ar gyfer cynnal y cynllun peilot. <p>Gofynnodd PK ynglŷn â sut rydym yn goruchwyllo gwasanaethau diogelwch canolig yn Lloegr ac yn benodol a ydym yn dibynnu ar NHS England neu a yw'r CBC yn mynd i bob uned ac yn asesu pob un yn unigol? Os yw'r CBC yn ymgymryd â'i graffu ei hun sut mae hyn yn cymharu â dull NHS England?</p> <p>Eglurodd AC fod unedau dan glo canolig ac isel yn rhan o'r Fframwaith Cenedlaethol a bod gan y CBC dîm o nyrsys, gweithwyr cymdeithasol, therapyddion a'u pwrpas oedd mynd i mewn ac adolygu unrhyw Unedau sydd â chleifion o Gymru. Adolygir yr unedau hyn o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae'r CBC yn rhoi sgôr ansawdd ar gyfer y darparwyr Sector Annibynnol hyn. Yn ogystal, mae'r CBC hefyd yn cyflogi pedwar rheolwr achos sy'n adolygu cleifion o Gymru.</p> <p>Esboniodd CB fod y CBC hefyd yn gweithio gyda'r Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) ac os oedd unrhyw brosesau sicrhau ansawdd wedi'u rhoi ar waith ar y cyd â NHS England, roedd y CBC yn rhan o'r Bwrdd Sicrwydd hwn. Fel rhan o'r Mesurau Iechyd Meddwl, mae gan bob claf yng Nghymru gydlynnydd gofal perthnasol y Bwrdd Iechyd a fydd yn goruchwyllo lleoliad y claf os yw hyn y tu allan i leoliad a gomisiynwyd gan y CBC. Myfyriodd PK ar y gwahaniaeth maint rhwng Cymru a Lloegr. Mae gan Y Comisiwn Ansawdd Gofal yn Lloegr fwy o adnoddau ar gyfer goruchwyllo iechyd meddwl. Mae'r CBC yn goruchwyllo lleoliadau ar draws ffiniau gyda thîm bach. Er bod PK wedi cael sicrwydd bod tîm y CBC yn gymwys, sut gall y CBC sicrhau bod ei ddull mor gadarn â Lloegr gyda'u darparwyr.</p> <p>Dywedodd AC, bod yr UGCC yn arfer gwneud adroddiad blynyddol yn y gorffennol, yn cwmpasu'r holl unedau a chleifion, yn olrhain a oedd cleifion yn cael eu gweld gan eu cydlynnydd gofal bob blwyddyn. Ers dod yn CBC, ni ymgwymerwyd â hyn ond gallai'r CBC ystyried dod â hyn yn</p>



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem ar yr Agenda
	<p>ôl. Yn ogystal, caiff pob digwyddiad ei gofnodi a'i fonitro trwy'r system CCAPS.</p> <p>Ystyriodd y Cadeirydd fod hon yn drafodaeth ddefnyddiol a gofynnodd am i'r materion hyn gael eu cynnwys yn yr ymchwiliad manwl i iechyd meddwl a drefnwyd ar gyfer Ebrill 2025.</p> <p>Cafwyd ymholiad ar y gyfradd tawelu cyflym ond cadarnhaodd AC nad oedd wedi gallu cael rhagor o wybodaeth cyn y cyfarfod a byddai'n ymchwilio i hyn ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfarfod nesaf.</p> <p>CAM GWEITHREDU: AC i roi'r wybodaeth ddiweddaraf a rhagor o wybodaeth am y mater tawelu cyflym.</p> <p>Penderfynodd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Nodi'r adroddiad; a• Derbyn yr adroddiad fel sicrwydd bod mecanweithiau cadarn ar gyfer sicrhau diogelwch ac ansawdd o fewn y rhaglen.
QS025/032	<p>4.5 Adroddiad Digwyddiadau a Phryderon</p> <p>Derbyniwyd adroddiad yn amlinellu digwyddiadau a phryderon diweddar a adroddwyd i'r CBC gan ddarparwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd sy'n cwmpasu'r cyfnod Ionawr 2025 — Chwefror 2025. Mae'r adroddiad yn cynnwys digwyddiadau yn dilyn y cyfarfod diwethaf rhwng y gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Ambiwlans/111, ac mae unrhyw ddigwyddiadau newydd y mae angen eu hadrodd ar gyfer y cyfnod adrodd wedi'u cynnwys. Mae data ar gyfer gwasanaeth Ambiwlans ac 111 a adroddwyd trwy Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru hefyd wedi cael eu cynnwys o fis Rhagfyr. Tynnodd CB sylw hefyd at ddau adroddiad yr Ombwdsmon yn ymwneud â gwasanaethau Ambiwlans.</p> <p>Penderfynodd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Nodi'r adroddiad; a• Derbyn yr adroddiad er sicrwydd.
QS025/033	<p>4.6 Adroddiad y Rheoleiddiwr (Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) / Y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)</p> <p>Rhodddwyd diweddariad ar weithgaredd rheoleiddio. Nododd yr Aelodau'r diweddariadau gan Arolygiaeth Iechyd Cymru (AGIC) a'r Comisiwn Ansawdd Gofal ar wasanaethau amrywiol a nododd y cydweithrediad parhaus ag AGIC i wella prosesau adrodd a sicrwydd.</p> <p>Penderfynodd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Nodi'r adroddiad.



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem ar yr Agenda
QS025/034	5.1 Adroddiad Cryno Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau (QSO) Nododd yr Aelodau'r adroddiad cryno QSO a gyflwynwyd yng nghyfarfod CBC Mawrth 2025.
QS025/035	6.1 Unrhyw Fater Arall Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod.
QS025/036	6.2 Eitemau i'w gohirio/uwchgyfeirio i'r Cyd-bwyllgor Comisiynu/Is-bwyllgorau eraill ac adolygiad o unrhyw gamau gweithredu i gyfarfodydd yn y dyfodol Roedd yr Aelodau o'r farn y dylid tynnu sylw at y materion canlynol yn yr adroddiad cryno hyd at y Cydbwyllgor Comisiynu (CBC); <ul style="list-style-type: none">• Nododd y Cadeirydd y byddai rhagor o waith yn cael ei wneud ar rai o'r adroddiadau er mwyn gwella'r cydrannau ansawdd ymhellach.• Cefnogodd yr is-bwyllgor yn gryf ddatblygiad y daith fideo o gwmpas yr uned Mamau a Babanod.• Nododd yr aelodau'r cynnydd a wnaed yn y gwasanaethau newyddenedigol sydd ar hyn o bryd wedi'u huwchgyfeirio a'u cofnodi fel risgiau.• Gwnaeth yr aelodau sylwadau ar bwysigrwydd sicrhau eglurder llwyr ar gyfer gwasanaethau sy'n mynd i broses uwchgyfeirio ynghylch disgwyliadau a threfniadau.• Gofynnodd yr Aelodau am i'r sesiwn strategaeth sydd i ddod gynnwys trafodaeth ar y gwahaniaeth rhwng risgiau darparwyr a risgiau comisiynydd.• Teimlai'r Aelodau ei bod yn bwysig tynnu sylw at y materion sy'n ymwneud â heintiad OXA.• Nododd yr aelodau'r diweddariad defnyddiol ar fater PSMA PET a godwyd yng nghyfarfod y CBC. Nodwyd bod diweddariad wedi'i gyfleu i Gyfarwyddwyr Meddygol y Byrddau Iechyd.• Gofynnodd yr Aelodau am i fetrigau ansawdd gwasanaeth ambiwlans, yn benodol aseiniadau galwadau amhriodol ac oedi yn yr ystafell reoli, gael eu cynnwys yn y dadansoddiad manwl o wasanaethau ambiwlans. Mae hyn er mwyn sicrhau asesiad trylwyr o ansawdd y gwasanaeth yn hytrach na chanolbwyntio ar ddata perfformiad yn unig.• Gofynnodd yr Aelodau am stori cleifion ambiwlans ar gyfer y cyfarfod QSO nesaf.• Cynnal dadansoddiad manwl o'r toriadau GDPR o fewn yr adroddiad Ambiwllans ac 111 er mwyn deall yr achosion.
QS025/037	6.3 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem ar yr Agenda
	Daeth y cyfarfod i ben am 16:27. Mae'r cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 02 Mehefin 2025.

COFNODION